

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 2ail Gorffennaf 2025

Presennol

Cynghorwyr – B Jones (Is-Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, G Davies, E Lewis, E Davies, S Evans, P Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - E Lewis, R Ashton (Cadeirydd)

Cynnigiodd y Cadeirydd, B Jones croeso cynnes i bawb.

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 4ydd Mehefin

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Fuodd y toiledau wedi'u blocio dwy waith yn ystod y mis diwethaf. Treuliodd Andy dipyn o amser yn gweithio allan yn union sut mae'r draeniau yn gweithio ac mae o'n hyderus fydd pethau'n haws wrth fynd ymlaen. Mae gwealod toiled y dynion yn rhydd o'r llawr ac angen ei drwsio
2. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones wedi gosod y drych yn ei le
3. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Arwydd wedi ei osod gan B Jones
4. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi cael addweid gan Open Reach i'r gwifren cael ei godi ond dyd hyn ddim wedi digwydd eto
5. Arwyddion am y toiledau ar y B4518 a'r A470 – Wedi eu osod gan B Jones
6. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – S Reast wedi ysgrifennu at y perchenog
7. Nawdd Windfall – Mae cais am y nawdd i creu llwybr cerdded o Lanbrynmair i Tafolwern wedi ei ddanfôn a disgwylir canlyniad erbyn diwedd y mis
8. Sbwriel ar y ffordd o Bont i Talerddig – Cyflwynwyd cynllyn i greu grŵp casglu sbwriel gyda cymorth gan Cadw Cymru'n Daclus. S Reast i gydlynu
9. Safle Network Rail yn Nhalerddig – Dim diweddariad
10. Cyfrifion terfynnol a'r awdit llawn – Cyflwynwyd y gwaith hyd yn hyn ac fydd rhaid ei ddanfôn i Awdit Cymru erbyn wythnos cyntaf Mis Awst. Cynigiodd S Reast fod angen rhoi mwy o sylw at cofnodi taliadau mewn ffordd mwy fanwl wrth fynd ymlaen.
11. Holiadur am y cae mawr – Cafwyd 10 holiadur yn ôl erbyn hyn ac mae S Reast yn cadw cofnod o'r syniadau er mwyn paratoi at cyfarfod cyhoeddus – gwelwch rhif 13
12. Adroddiad bioamrywiaeth – S Reast a F Cauley i gydlynu – dim diweddariad
13. Baw/cerdded cŵn – Cyтынwyd trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod defnydd y cae mawr yn cynnwys lle ar wahan i cwn rhywbryd yn mis Medi. S Reast i gydlynu
14. Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed – Nid oedd R Ashton a B Jones yn gallu mynd i'r cyfarfod ond cafwyd adroddiad byr gan G Mitchell. Roedd mynychwyr yn brin felly roedd yna bwyslais ar denu cynrichiolaeth digon eang a teg.

15. Parcio ar y cae mawr a cyflenwad cerrig – I Edwards i edrych allan am cyfle i casglu cerrig dros ben i'w ddefnyddio ar y cae. Cynigwyd gofyn i'r asiantaethau ffyrdd am gerrig dros dro hefyd.
16. Glanhau lloches bws Talerddig – Gofynwyd i trigolyn yn Nhalerddig i gwneud y gwaith
17. Adroddiad gan Powys ynglyn a'r stafell snwcer – Mae yna gynlllyn ar y gweill i rhoi gorchudd newydd ar lawr.
18. Arwyneb pafin yng Nghlanclegyr yn dirywio – S Reast a B Jones wedi ymweld a'r stâd heb dod o hyd i unrhyw problemau amlwg
19. Gorchudd draen wrth y Fron – Adroddwyd i Powys fod y gorchudd allan o'i le ac roedd wedi cael ei drwsio erbyn diwedd y dydd
20. Defnydd o iard y Cyngor – Cynigwyd gwneud cais am prynu a datblygu'r iard er fudd y gymuned. Cynigwyd gofyn i cynrichiolydd o PAVO i cyflwyno opsiynau a prosesau i cychwyn y trafodaeth
21. Car wedi parcio yn Nolfach – Cadarnhawyd fod un llinell gwyn yn golygu terfyn ymyl y ffordd ac nid yw'n gwahardd pobol rhag parcio
22. Problemau cyfathrebu gyda Cyngor Sir Powys er mwyn gwneud taliadau – Dealltwyd fod y sytem yn hynod o lletchwith ond nad oes gobaith o gwelliannau oherwydd diffyg adnoddau
23. Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 ar gyfer plant yn dychwelid o'r ysgol fin nôs – S Reast i gwneud ymholiadau. Mae'n rhaid i'r asiantaeth ffyrdd gwneud arolwg cyflymder a ni all hyn ddigwydd tan fydd gwaith Network Rail wedi dod i ben.
24. Gorchudd cylfenwad dwr yn Llan – Gorchudd wedi torri ac yn dod yn rhydd. S Reast i adrodd i Hafren Dyfrdwy
25. Sietyn wrth Glan yr Afon – Gor tyfiant yn creu problemau i cerddwyr yn enwedig rhai gyda plant bach neu cadair olwyn. S Reast wedi adrodd i asiantaeth tai Barcud sydd yn gyfrifol amdano
26. Cyfarfod gyda Biosffer Dyfi ynglyn a profi dŵr ac arolwg Gwenoliaid Duon – S Reast a F Cauley wedi mynychu. Dangoswyd map yn dangos safleoedd profi dŵr a rhanwyd hysbysebiadau yn annog trigolion i adrodd manylion ynglyn a gweld Gwenoliaid Duon yn yr ardal
27. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Maldwyn Un Llais Cymru – Cadarnhawyd fod y Cyfarfod Blyneddol a chwarterol ar y 7fed o Gorffennaf 2025
28. Arolwg ROSPA yn y cae chwarae – Mae'r arolwg wedi ei cwblhau ac mae popeth yn iawn

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont a Llanbrynmair	le	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd trwy safleoedd we OperationSnap neu GoSafe. Cynnigwyd rhoi bwgan brain efo siaced 'high vis' ar ochr y ffordd Mae GoSafe wedi gohirio hyfforddiant tra fod arolwg diogelwch ar y gweill. Cafwyd wybod bod yna trigolyn sydd

		wedi gwneud yr hyfforddiant yn barod – S Reast i gofyn am amserlen i'r arolwg
Arolwg ffordd rhwng Bont a Talerddig ar ôl i'r A470 ail agor		Mae'r gwaith adnewyddu bron a gorffen

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Disgwylir cadarnhad am arwyneb newydd i'r ffordd trwy Pont Bel
Cyflwr y ffordd dros Pont Brics	le	Mae'r gwaith yn cael ei wneud ar y 14-19fed o Gorffennaf ac fydd y ffordd yn cau dros nôs o 7.00yh i 7.00yb

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Llan	le	Arolwg o pob golau wedi ei gwneud ac o dan sylw Powys

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

- Cynnigwyd cyfrannu tuag at y Cylch Meithrin allan o'r nawdd dewisol ar gael i Cynghorwyr Sir.

Gohebiaeth

- Cyhoeddwyd Hyb Cynghorau Tref a Cymuned Powys i Dweud Eich Dweud ar wefan Powys i cael mynediad at wybodaeth am cyfarfodydd a polisiau diweddar ac i rhannu sylwadau, syniadau a phrofiadau – S Reast i'w rhoi ar FB

Cynllunio - Dim

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 11/06/25

Cyfrif Cyfredol	£6,585.92
Cyfrif Cadw	£2,996.91
Cyfanswm	£9,582.83
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£9,582.83

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
02/07/25	Cyflog y Clerc – Mehefin	£417.60	Cytunwyd
02/07/25	Treth ac NI ar cyflogau - Mehefin	£72.90	Cytunwyd
02/07/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Mehefin	£120.00	Cytynwyd
02/07/25	ROSPA Play Safety	£124.80	Cytynwyd
02/07/25	Andrew Mears – Dadbloccio draen y toiledau	£50.00	Cytynwyd
02/07/25	Andrew Mears – Dadbloccio draen y	£75.00	Cytynwyd

	toiledau a trwsio sedd toiled		
02/07/25	DRE & Co. – Awdit mewnol	£102.00	Cytynwyd
02/07/25	Joanna Whiteway – Glanhau toiledau	£300.00	Cytynwyd
02/07/25	Blewyn Glass – Cyfraniad i costau cyffredinol	£100.00	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- D Jones – Station House
- I Edwards – Tail yn blocio hen ffordd Pantglas i Pont Bel
- F Cauley – Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen ynglyn a'r gornel tu ôl l'r hysbysfwrdd yn Bont
- B Jones – Tyllau ar ffordd y Gelli

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 3ydd mis Medi 2025.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair